



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Gwasanaethau Cyflogaeth
Shared Services
Partnership
Employment Services

Cylchlythyr System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu (WNWRS) mis Mai 2023

Wrth i ni ddathlu'r Coroni Brenhinol, rydym hefyd yn dathlu Pen-blwydd Tair Blynedd ein cyhoeddiad cyntaf o Gylchlythyr WNWRS



Rydym Am Ddathlu Tri Chyflawniad Anhygoel i System Genedlaethol Adrodd Gweithlu Cymru (WNWRS)

Mae data staff 100% o bractisiau yng Nghymru wedi'u casglu yn y WNWRS ac rydym wedi cefnogi Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg i nodi'r Meddygon Teulu a'r Gweithwyr Iechyd Proffesiynol hynny a gyflogir mewn Practisiau Meddygon Teulu a oedd angen cymorth gan y tîm i gael mynediad at y Cynllun Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI) - [Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru](#). Felly, mae cael eich rhestru ar System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu yn rhan angenrheidiol o'r trefniadau.

Gall hawliadau Taliadau Gallu Ychwanegol (ACP) gael eu dilysu gan y data ar WNWRS ar draws pob Bwrdd Iechyd. Gan weithio ar y cyd â Byrddau Iechyd, rydym wedi cytuno ar ddull ar y cyd i symleiddio gweinyddiaeth y broses hawlio ACP. Oeddech chi'n gwybod bod sesiynau galw heibio sy'n cael eu rhedeg ar y cyd gan Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC) a Byrddau Iechyd wedi'u cynnal a bydd sesiynau ychwanegol yn cael eu trefnu ar gais.

Mae Practisiau Meddygon Teulu sy'n nodi eu swyddi gwag presennol yn WNWRS wedi helpu i greu darlun o fylchau yn y gwasanaeth fesul Bwrdd Iechyd a Rôl Swydd. Gall yr wybodaeth hon fod yn arbennig o ddefnyddiol i feddygon teulu newydd gymhwyso sydd am setlo a dechrau eu gyrfaedd fel meddyg teulu yng Nghymru. Gellir hysbysebu pob swydd wag mewn practis trwy GPWales sy'n cysylltu â NHS Jobs gan gyrraedd y gynulleidfa ehangaf.

Diolch i'n holl Reolwyr Practis ar draws Cymru am eich ymgysylltiad parhaus â'ch WNWRS, rydym yn gwerthfawrogi cydweithio!

Angen help i gael eich Locwm i gofnodi eu sifft ar Locwm Hub Cymru (LHW) ?

Mae gennym rai awgrymiadau ar sut i helpu i gefnogi hyn:

- Tynnwch sylw eich meddygon teulu locwm bod cofnodi sifftiau locwm yn anghywir yn peryglu eu mynediad at indemniad fel y nodir yng nghanllawiau GMPI a allai wneud y locwm a'r practis yn agored i risg gyfreithiol.
- Ceisiwch hysbysebu sifftiau yn LHW ymlaen llaw lle bo modd. Pan fydd locwm yn derbyn y sifftiau hyn sydd wedi'u cofnodi ymlaen llaw yn LHW, mae'r data sifft yn cael ei lanlwytho i WNWRS mewn amser real yn hytrach na bod ar y diweddariad misol.
- Mewngofnodwch yn rheolaidd i LHW ac adolygwch yr adran 'Fy Locwm', lle gallwch olrhain ymgysylltiad y practis â'ch meddygon teulu locwm.
- Rhowch gyfle i feddygon locwm gofnodi eu sifft tra eu bod yn eich Practis.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni, rydym bob amser yn hapus i helpu!

Ewch i LHW drwy'r ddolen [yma](#)



Mae Hysbysebion Gofal Sylfaenol trwy GPWales a NHS Jobs wedi'i ddiweddaru. Mae GPWales a Gwasanaethau Recriwtio PCGC yma i'ch cefnogi drwy'r swyddogaethau gwell i sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu arnoch wrth greu swydd wag newydd er mwyn sicrhau bod cymorth llawn ar gael i chi drwy gydol y broses y mae'n rhaid creu'r swydd wag drwy GPWales yn unol â'r canllawiau isod: [Hysbysebu Gofal Sylfaenol - Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru](#) [GPWales](#)

Ar gyfer Ymholiadau am greu cyfrif neu llunio hysbyseb cysylltwch â: support@gpwales.co.uk

Ar gyfer ymholiadau unwaith y bydd yr hysbyseb wedi'i chreu ac yn fyw, cysylltwch â: NWSSP.GPadsverts@wales.nhs.uk



GIG
CYMRU
NHS
WALES

If you have any queries please do not hesitate to contact us:

Tel: 01792 86 0544
Email: NWSSP.PrimaryCareWNWRS@Wales.nhs.uk

You can also visit our website at: <http://www.nwssp.wales.nhs.uk>